# 67 MILLTIR AM £11 MILIWN

## Na, nid traffordd ond silffoedd

MAE pob casglwr yn gorfod wynebu'r broblem barhaus honno — sut i gael hyd i ragor o le i'r llyfrau, ffotograffau, nodiadau, neu beth bynnag sy'n digwydd mynd â'i fryd. Mae ambell un wedi symud tŷ cyn hyn, a llawer un wedi gorfod codi estyniad: neu roi'r gorau i gasglu. Dyna'r broblem a wynebodd y Llyfrgell Genedlaethol ganol yr 80au a dyna'r dewisiadau y bu rhaid iddi hithau eu hystyried — symud rhan o'r stoc i 'dŷ' newydd, codi estyniad, casglu llai.

Dewis y Llyfrgell oedd codi estyniad a fyddai'n ddigonol am tua chwarter canrif ond bu rhaid dechrau trafod yr holl opsiynau gyda'r Swyddfa Gymreig yn 1986-7. O'r diwedd gwnaed cais ffurfiol am gyllid yn 1991 ac yn Rhagfyr 1992, er mawr lawenydd a chryn ryddhad, clywyd fod y cais yn llwyddiannus. Mynd ati wedyn i gynllunio, penodi penseiri, penderfynu ar gontractwyr a gosod systemau rheoli yn eu lle — a dal anadl i weld a fyddai'r Trysorlys yn derbyn y cais. Cafwyd gwybodaeth am grant o £11 miliwn gan y Trysorlys fis Medi 1993 ac o'r diwedd yr oedd modd symud ymlaen.

Y penseiri oedd Partneriaeth Burgess o Gaerdydd a Chymry rhugl a phybyr yn bartneriaid yn y cwmni. Y dasg a osodwyd iddynt oedd cynllunio a goruchwylio codi adeilad a fyddai'n gallu bod yn gartref i holl dderbynion y Llyfrgell am y 25 mlynedd nesaf, yn llyfrau, cylchgronau, llawysgrifau a mapiau, yn ogystal â'r defnyddiau clyweled sy'n cynyddu cymaint. Heblaw hynny byddai angen lle i system gyfrifiadurol newydd a mannau gweithio i 60 o staff, a'r cyfan hyn i'r safonau cydwladol uchaf o safbwynt cadwraeth a gwarchodaeth.


A'r canlyniad? Adeilad gyda'r gorau a'r mwyaf modern yn Ewrop, gyda'r system silffio symudol fwyaf hylaw a welwyd yn yr un llyfrgell. Heb ystyried y mannau gweithio ac atrium golau ac ysgafn, mae chwe llawr y stac bob un yn 68 metr × 26 metr (beth yw maint cae pêl-droed?), ac ynddynt gyfanswm o 67 milltir o silffoedd.

Agorwyd yr adeilad newydd yn swyddogol ddiwrnod olaf mis Mai eleni. Yng ngeiriau llyfryn dathlu'r achlysur:

> *Fel y daw canrif ei genedigaeth i ben, mae'r Llyfrgell yn llawen o weld diogelu cyflwr ei chasgliadau presennol a rhai'r dyfodol mewn adeilad a aiff â hi yn hyderus i'r mileniwm newydd.*


B.F.R.






*Tu mewn i'r storfa newydd*


# *Yn Newydd o'r Wasg...*




ROBIN 'RENGAN LAS A'I DEBYG
Argraffiad Newydd £4.25




Cyfres Broydd Cymru 2
BRO DINEFWR; £3.95

### *Nofelau*

*Cyfres Seren Serch:*
DDOE A'I DDAGRAU; £3.95
CREGYN TRAETH; £3.95
*Hefyd:*
NES ADREF/John E.Williams; £5.95
GWLAD Y MENIG GWYNION/Geraint Jones; £4.50
APWYNTIAD TERFYNOL/Addasiad Llifon Jones; £4.95

### *Llên Gwerin ac Atgofion*

HEN GOF/T.Llew Jones; £5.00
ROBIN 'RENGAN LAS A'I DEBYG/William Owen; £4.25
Y NAIN YN Y CARPED/John Owen Huws; £3.25

### *Barddoniaeth*

CYWYDDAU CYHOEDDUS 2; £5.50

### *I Ddysgwyr*


DIM DIANC/Pat Clayton; £3.50

### *Cyfres Broydd Cymru*


BRO MAELOR/Aled Lewis Evans; £3.95
BRO DINEFWR/Gol. Eleri Davies; £3.95

### *I Blant*

TECWYN A'R COMBEIN/Margiad Roberts; £3.25
CANTRE'R GWAELOD/Elena Morus; £3.50
SIFF A SAFF A STRAEON ERAILL/Helen Davies; £3.95
NOS DA, TAID/addasiad Myrddin ap Dafydd; £4.95




CYWYDDAU CYHOEDDUS 2
£5.50




HEN GOF, Ysgrifau Llên Gwerin
T. LLEW JONES; £5

GWASG Carreg Gwalch

12 Iard yr Orsaf, Llanrwst LL26 0EH Ffôn: 01492 642031 Ffacs: 01492 641502